# <u>Cofnodion CCG 19.12.19</u>

19:95: **Presennol:** Siôn Ifans (Cadeirydd), William Owen, Gareth Owen, Elwyn Vaughan, Deryck Lewis, Gwenfair Davies, Gaeth Jones, Aled Griffiths

19:96: **Ymddiheuriadau:** Huw Williams, Iwan Jones

19:97: **Datganiadau o ddiddordeb** - Dim

19:98: **Cyflwyno a Derbyn Cofnodion Tachwedd** Cynigiodd Gwenfair Davies fod y cofnodion yn gywir. Fe'i heiliwyd gan William Owen

19:99**: Materion yn codi o'r cofnodion:**

Cafwyd ymateb gan Clive Jones ar nifer o faterion a godwyd (19:94:2)

- Canghennau wrth bont Cwmlline ar yr A470 **-** Maesafon a Dolybont i'w hadrodd i Traffig Cymru.
- Canghennau'n hongian dros y ffordd wrth gyrraedd Abercegir o gyfeiriad Machynlleth. Adroddir hyn i Draffig Cymru
- Llwybr troed Glantwymyn. Cliriwyd y llwybr gan gyngor Sir Powys. Diolch i Paul Hughes a Gwyn Jones am ddarparu lluniau a gwybodaeth am y cynnydd.
- Dwr yn cronni wrth grating wedi suddo ger Rhosawel Cwmlline. Cafwyd ymweliad gan gynrychiolydd Cyngor Sir Powys gan ddweud nad oedd modd cyfiawnhau'r gwariant. Yn dilyn ymholiadau pellach cafwyd addewid o ail-ymweld.
- Aroglau o ysbwriel ger Cwm Ffrydlan - mae hyn yn cael ei symud ymlaen gan Gyngor Sir Powys
- Mynedfa Glantwymyn - cais am arwydd ildio a marcio'r ffordd - cafwyd cais am fwy o fanylion - bydd Aled Griffiths yn tynnu lluniau
- Rheiliau Pont Ifan, Ceinws angen eu trwsio - cafwyd addewid i'w trwsio pan fydd arian ar gael - bydd y clerc yn cysylltu â Huw Williams i weld a oes perygl i'r cyhoedd ac angen gweithredu ar frys.
- Angen mwy o halen mewn mwy o leoliadau gan gynnwys llethrau - cafwyd gwybod y byddai hyn y digwydd yn ei dro, wedyn yn dilyn cyfathrebu pellach y byddai'r ardal hon y flaenoriaeth ac o ganlyniad cyrhaeddodd mwy o hael ardal Darowen. Yn dilyn neges gan Iwan Jones nad oedd dim halen rhwng Darowen a Chomins bydd y clerc yn cysylltu eto.

Bydd Elwyn Vaughan yn cwrdd â William Owen a Deryck Lewis i weld safleoedd pryderon na chafwyd ymateb iddynt gan Gyngor Sir Powys hyd yn hyn gan gynnwys yr isod.

- Grating wedi suddo ger Aberffrydlan
- Goleuadau Top Pentre', Glantwymyn

- Gwteri ochr ffordd yn gyffredinol ac yn arbennig ar y ffordd gefn o Ffridd Gate i Bantperthog.
- Angen ysgubo'r ffyrdd yn gyffredinol

Nodwyd y gallai cynghorau cymunedol fod yn gyfrifol am dalu £10.00 am bob lamp nad yw ar briffordd yn unol â deddfwriaeth newydd i'w cyflwyno yn y dyfodol agos. Pwysleisiwyd eto berygl mawr o ganlyniad i'r tywyllwch llwyr yn yr ardal dan sylw yn enwedig i drigolion lleol ac ymwelwyr i Ganolfan Glantwymyn.

19:100: **Praesept**

Cytunwyd y dylid gofyn am £11,500.00 ar gyfer 2010-21 erbyn 24.1.19

19:101: **Cynllunio:** Dim

19:102: **Materion Ariannol:**

- 19:102:1: Cyflog Clerc Gorffennaf – Tachwedd £1064.00
- 19:102:2: Costau'r Clerc Ionawr – Tachwedd £158-47
- 19:102:3: Aelodaeth Cymdeithas Clercod Cymuned Lleol £103.00 (Ail gyflwyno siec 3 mis yn ôl)

19:103: **Gohebiaeth:**

19:103:1: Cynhelir cyfarfod ardal Un Llais Cymru am 7.00 y 15fed o Ionawr. Bydd Aled Griffiths yn cynrychioli'r Cyngor.

19:103:2: Cynhelir hyfforddiant Cymorth Cynllunio Cymru (23.1.20) yn Llanfair-ym-Muallt ar waith yr Arolygiaeth. Gwneir ymholiadau i weld a fydd yr hyfforddiant yn addas i'r clerc, ac os felly bydd y clerc yn mynychu.

19:103:3: Cafwyd cais am arian gan Urdd Gobaith Cymru ar gyfer Eisteddfod 2002. Cynigiodd Aled Griffiths y dylid cefnogi'r cais mewn egwyddor ac fe'i heiliwyd gan Gwenfair Davies. Penderfynwyd aros nes bydd Pwyllgor Gwaith a Phwyllgor Apêl yn cael eu ffurfio cyn cyfrannu gan ystyried y mater yn y cyfamser.

19:103:4: Estynnwyd gwahoddiad i gynghorydd fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Eco Dyfi. Penderfynwyd cysylltu â Gwen Lloyd i drafod y sefyllfa gyfredol.

19:104: **Adroddiadau'r Cynghorwyr**

19:104:1: Elwyn Vaughan:

Ysgol Bro Hyddgen (Uwchradd) - Mae'r gwaith adeiladu ar yr ar fin mynd allan i'w dendro.

Y Ganolfan Hamdden - Mynegwyd anfodlonrwydd cyffredinol ar safon adeilad y Ganolfan Hamdden a'r adnoddau ynddi yn ogystal â diffyg rheolaeth effeithiol a diffyg cefnogaeth i'r Gymraeg a diwylliant Cymru o ran staff a chwmni Freedom Lesiure.

Mae trafodaethau ar y gweill am a ddylid gwario miliwn o bunnoedd ar y ganolfan bresennol neu adeiladu pwll nofio ac ystafell ffitrwydd ar safle'r ysgol. Nodwyd y byddai angen dod o hyd i gartref i'r bowlio dan do pe ddigwyddai'r ail opsiwn.

Bathodynnau glas - Nodwyd na fydd pobl yn cael llythyr atgoffa am adnewyddu'r bathodynnau glas o hyn allan. Nodwyd bod angen hysbysu'r cyhoedd bod eisiau adnewyddu ceisiadau ar-lein erbyn hyn.

19:104:2: Aled Griffiths:

Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus dros ben i godi arian at y Ffederasiwn.

19:105: **Unrhyw Faterion Eraill**

19:105:1: Mae halen wedi cyrraedd Darowen ond does dim ar y llethrau serth i lawr am Gomins.

19:105:1: Mae carafan wedi cael ei adael mewn 'layby' ger Mathafarn ac eisiau adrodd amdani fel achos o dipio anghyfreithlon.

19:105:1: Mae mynediad i gae ger Glandyfi 'Grey House' yn is na'r ffordd ac yn berygl i geir.

19:105:1: Diolchwyd i Elwyn Vaughan am godi proffil O'r Mynydd i'r Môr y cyfryngau yn ddiweddar. Atgoffwyd pawb am gyflwyniad Siân Stacey, Cydlynydd Ymgysylltu Cymunedol O'r Mynydd i'r Môr am 7.00 cyn cyfarfod CCG yn Ionawr.

19:105:1: Mae dŵr yn cronni ar y ffordd yng Nghemaes ger yr eglwys. Adroddir hyn i 'Traffig Cymru'.

Caewyd y cyfarfod am 8.25.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.00 ar y 30ain o Ionawr**